# SL(6)440 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ('Deddf 1986'), gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymddeol wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol ('TTA') am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y berthynas yr hawl i olynu i'r denantiaeth. Un o'r profion wrth sefydlu hawl olynu yw bodloni'r TTA nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" mewn man arall. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r berthynas agos yn gymwys i gael olyniaeth yn awtomatig.

Mae'r Gorchymyn yn nodi ffigurau ar gyfer incymau amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amryfal weithgareddau ffermio ac fe'u defnyddir wrth benderfynu a yw'r tir dan sylw yn "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn ystod y cyfnod perthnasol.

Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2022 a 11 Medi 2023. Mae'r Gorchymyn hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2023 a 11 Medi 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. **Rheolau Sefydlog 21.2(x): Ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth eu cyhoeddi neu wrth eu gosod gerbron y Senedd.**

Mae paragraffau 3 i 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r materion a ganlyn o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor hwn:

*"3. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf 1986 i Weinidogion Cymru ragnodi drwy Orchymyn, unedau cynhyrchu o'r fath sy'n ymwneud â thir amaethyddol yr ystyrir eu bod yn briodol, am gyfnod o ddeuddeng mis a bennir yn y gorchymyn. Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023 sy'n cwmpasu'r*

*cyfnod rhwng 12 Medi 2022 a 11 Medi 2023. O ystyried na all y TTA benderfynu ar achosion olyniaeth berthnasol heb y ffigurau perthnasol, rhaid cael Gorchymyn Unedau Cynhyrchu i gwmpasu'r cyfnod o 12 mis rhwng 12 Medi 2023 a 11 Medi 2024.*

4. *Yn hanesyddol, mae Gorchmynion Unedau Cynhyrchu bob amser yn cynnwys elfen ôl-weithredol oherwydd mae'n dibynnu ar bryd mae'r ystadegau sylfaenol ar gael gan DEFRA, ac yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu trin er mwyn llunio'r ffigurau perthnasol ar gyfer Cymru. Nid oedd y ffigurau hyn ar gael tan 13 Medi 2023. (Ychwanegwyd pwyslais).*

5. *Mae achosion sydd wedi symud ymlaen i'r TTA ers 12 Medi 2023 wedi'u gohirio tan i'r Gorchymyn gael ei wneud. Ar hyn o bryd mae chwe chais a fyddai'n cael eu heffeithio gan Orchymyn newydd.*

6. *Bydd angen i'r ddeddfwriaeth fod yn gymwys yn ôl-weithredol rhwng 12 Medi 2023 a dyddiad dod i rym y Gorchymyn. Caniateir hyn yn benodol gan baragraff 4b o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 sy'n darparu y bydd y Gweinidog drwy orchymyn, am unrhyw gyfnod o 12 mis a bennir yn y gorchymyn, yn penderfynu mewn perthynas ag unrhyw unedau cynhyrchu rhagnodedig y swm sydd i'w ystyried fel yr incwm blynyddol net o'r uned honno yn y cyfnod hwnnw."*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod sawl achos olyniaeth a ddygwyd gan unigolion ledled Cymru i bob pwrpas wedi'u gohirio ers mis Medi 2023 gan eu bod wedi gorfod aros am y ffigurau newydd a ddarperir gan y Gorchymyn hwn i ddatrys eu hawliadau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru aros am y data perthnasol gan DEFRA cyn i'r Gorchymyn gael ei ddrafftio. Fodd bynnag, daeth y data hyn i law ar 13 Medi 2023. Nid yw'n glir pam mae pum mis arall wedi mynd heibio erbyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, ac yn ystod y cyfnod hwnnw nid yw unigolion wedi gallu bwrw ymlaen â'u hachosion olyniaeth.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.